FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION A GADARNHAWYD

O seithfed cyfarfod ar ddeg y fforwm a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 2 Medi 2005

38/05 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

CADEIRYDD Michael Edwards

YSGRIFENNYDD John Marchant

AELODAU Paul Davies
Martin Howorth
Andrew Kelly
Naomi Klenerman
Dave Liddy
Gerald Moss
Mabyn Pickering
Shelagh Roberts
Tim Stevens
Edward Wardle

MYNYCHWYR ERAILL
Emma Haldane
Paul Humphreys
Alun Price (CCGC)
John Pugh

Ymddiheuriadau: Sue Gittins
Ieuan Lewis
John Lawton Roberts

39/05 MATERION SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD AR 10 MEHEFIN 2005

Dosbarthwyd cofnodion drafft i aelodau ar 8 Awst 2005 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir ar 29 Awst 2005.
26/05 Ysgrifennwyd llythyr at Ystad Wynnstay, ond ni dderbyniwyd ateb hyd yn hyn.
27/05 Dosbarthwyd dogfennau'r gweithdai gyda'r agenda.
27/05 Ni anfonwyd y llythyr at LICC eto.
29/05 Ysgrifennwyd llythyr at BT ynghylch ffôn cyhoeddus Pentre ni dderbyniwyd ateb eto.
35/05 Cysylltwyd â Groundwork am y giatiau.
35/05 Ysgrifennwyd llythyr at y Cyngor ynghylch cau'r toiledau yn Llanarmon yn ystod y gaeaf.

40/05 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Bu i Mike Edwards, yr is-gadeirydd ddiolch i'r aelodau am eu hymdrechion yn ystod y tair blynedd diwethaf.
Diolchodd Martin Howorth hefyd i'r aelodau ar ran y Cyngor.

41/05 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD

Bydd manylion cyswllt y ceidwaid mynediad yn cael eu dosbarthu i'r rheiny sydd â diddordeb a bydd cardiau busnes yn cael eu llunio cyn bo hir.

Cyflwynodd yr ysgrifennydd fanylion am sut y bydd y seddi ar y fforwm newydd yn cael eu hysbysebu yn ddiweddarach ym mis Medi. Bydd pob aelod yn cael cyfle i gyflwyno ei hun yng nghyfarfod cyntaf y fforwm newydd ar 25 Tachwedd. Bydd y datganiadau cyflwyno hyn hefyd yn cynorthwyo aelodau yn y broses o ethol cadeirydd ac is-gadeirydd yn yr ail gyfarfod.

42/05 CERBYDAU MODUR YNG NGHEFN GWLAD

Dywedodd Tim Stevens bod y llwybr teithwyr (SJ130355 i SJ091366) wedi eu hatgyweirio i safon dda ar 99% ohono ond bod rhan ohono ger y cwt saethu angen rhagor o sylw pellach gan i ddŵr sefyll yno. Roedd angen hanner llwyth lori o gerrig ac agor y ffos tua throedfedd yn ddyfnach ar ddarn ohono. Byddai gwirfoddolwyr yn fodlon symud y cerrig o'r man y cânt eu dadlwytho yn y lleoliad.

Gweithred: Ysgrifennydd i ddilyn y mater hwn i fyny.

Dywedodd Edward Wardle ei bod yn amlwg bod amryw o'r ffyrdd annosbarthedig na seliwyd yn addas ar gyfer cerbydau modur, a dylai defnyddwyr ymatal rhag eu defnyddio fel nad yw'r broblem yn gwaethygu.

43/05 TIR COMIN

Croesawodd y cadeirydd Geoff Pilmoor, Rheolwr Prisiau a Hawliadau Tir Cyngor Wrecsam a roddodd gyflwyniad am dir comin i'r fforwm.

44/05 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

Roedd aelodau bellach wedi derbyn yr amserlen ar gyfer y CGHT yn seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cymru. Ceir dau gyfnod: Asesu a Datganiad o'r Camau Gweithredu ac mae'r cyntaf o'r rhain bellach ar waith. Esboniodd Martin Howorth y gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Bydd ymgynghorwyr yn cwblhau sampl o16% o'r rhwydwaith hawliau tramwy. Cyfarwyddir y syrfëwr i ddefnyddio'r meini prawf caeth a ddefnyddiwyd gan CCGC ychydig flynyddoedd yn ôl yn ei arolwg o Gymru gyfan ac a ddefnyddiwyd hefyd gan y Cyngor ar gyfer ei ddangosydd perfformiad. Dywedodd. Gerald Moss bod samplo safonol ar hap yn wallus gan i gyflwr y llwybrau amrywio o gymuned i gymuned. Byddai sampl o 16% o bob cymuned yn ddull mwy cywir. Argymhellodd Michael Edwards y dylid ystyried CGHT Efrog.

Dywedodd Tim Stevens ei fod yn pryderu ei bod yn ymddangos fel petai'r Cyngor yn ystyried bod 'llwybrau lleol' fel y diffiniwyd nhw gan y Ddeddf yn fater i bobl leol yn unig. Ymwelwyr yr ardal fyddai'n wynebu'r problemau mwyaf a byddai angen canfod ffordd i gael clywed eu barn. Mewn ymateb i ymholiad

gan Tim Stevens, dywedodd Martin Howorth nad oedd ffyrdd annosbarthedig (UCR) wedi eu cynnwys yn y sampl o 16% o'r hawliau tramwy ond bod rhydd i bawb gyflwyno sylwadau os oeddynt yn teimlo y byddai ffyrdd annosbarthedig (UCR) yn help i lunio gwell rhwydwaith cerdded. Byddai unrhyw sylwadau'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, byddai'r cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Gynulliad Cymru yn cael eu dilyn ac ni fyddai ffyrdd annosbarthedig (UCR) yn cael eu harolygu.

Teimlodd Andrew Kelly bod angen i'r FfMLl gyfrannu llawer mwy yn hytrach na chlywed am yr hyn a benderfynwyd arno eisoes. Gofynnodd i'r fforwm gael bod yn rhan o bob cam o'r broses. Roedd Martin Howorth yn mynnu bod ymgynghoriad y Cyngor wedi bod yn drylwyr ac yn eang. Y rheswm syml yr aeth yr ymgynghoriad yn ei flaen heb gyfeirio at y fforwm oedd bod y fforwm wedi cwyno am ddiffyg cynnydd dro ar ôl tro yn y gorffennol. Pan ddaethpwyd o hyd i amser i gwblhau'r ymgynghoriad, daethpwyd i'r penderfyniad y byddai'n well mynd ymlaen i'w gwblhau yn hytrach nag aros deufis arall i'r fforwm ailymgynnull.
Cynigwyd: *Cynigiodd Andrew Kelly bod Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn penodi cynrychiolwyr i eistedd ar y pwyllgor archwilio a bwrdd gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i oruchwylio'r gwaith o lunio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.* ***Eiliwyd:*** *Gerald Moss.* Tynnodd Martin Howorth sylw at y ffaith na fyddai hyn yn bosibl, gan mai aelodau etholedig y Cyngor allai eistedd ar y paneli archwilio a'r bwrdd gweithredol. *Tynnwyd y cynnig yn ôl.* O fewn yr amserlen bresennol, byddai'r FfMLl yn cyflwyno sylwadau ar y CGHT a byddai'r sylwadau yn cael eu cyflwyno gydag adroddiad gerbron y panel archwilio a'r bwrdd gweithredol. Yn fyr, apeliodd Michael Edwards am fwy o gyfraniad gan y fforwm ym mhob achos posibl. Pwysleisiodd nad oedd y FfMLl yn ceisio gwneud gwaith y Cyngor yn fwy anodd a bod aelodau'r fforwm yn ceisio helpu.

45/05 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

O ran mynediad agored, adroddodd Alun Price mai prin fu'r achosion o waharddiadau neu gyfyngiadau yn ei ardal ef ac ni fu'r un yn Wrecsam. Ni chafwyd yr anghydfodau yr oedd rhai wedi eu darogan.

Disgrifiodd Tim Stevens sut yr oedd llyfryn CCGC "Chi a'ch ci" yn nodi y gallai rhywun yrru cerbyd oddi ar y ffordd ar gilffordd sy'n agored i bob traffig. Nid oedd hyn o gymorth i'r cyhoedd oherwydd mewn gwirionedd roedd mwyafrif y cerbydau 'oddi ar y ffordd' yn feicwyr modur 'MotoCross' ac nad oedd ganddynt unrhyw fusnes ar gilffyrdd sy'n agored i bob traffig.

Gofynnodd Andrew Kelly am fynediad at ddyfrffyrdd, yn arbennig yr afon Dyfrdwy, ar gyfer canŵ-wyr neu ddefnyddwyr tebyg.

46/05 FFORWM MYNEDIAD CENEDLAETHOL

Nid oedd dim i'w drafod ar yr achlysur hwn.

47/05 UNRHYW FATER ARALL

Gofynnodd Andrew Kelly am adroddiadau blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam na gyhoeddwyd. Ymatebodd yr ysgrifennydd drwy ddweud nad oedd wedi cael amser i'w paratoi eto. Awgrymodd Martin Howorth os oedd angen yr adroddiadau efallai y dylai aelodau'r fforwm weithio arnynt. Teimlodd rhai aelodau y dylid parhau i lunio'r adroddiadau tra roedd eraill yn ei ystyried yn wastraff amser.
Gweithred: Byddai'r ysgrifennydd yn canfod os yw'r adroddiadau blynyddol yn ofyn statudol.

48/05 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF

Gofynnodd Edward Wardle a fyddai'r ceidwaid mynediad yn cael eu cynrychioli ar y fforwm nesaf a chefnogodd pob aelod hyn.

Cadarnhaodd yr ysgrifennydd y byddai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn eitem reolaidd ar yr agenda yn y dyfodol.

49/05 DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

Cynhelir cyfarfod cyntaf y fforwm newydd ar 25 Tachwedd ond gadewir dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd sy'n dilyn yn agored i'r aelodau yn y cyfarfod benderfynu arnynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10pm.